I S - D D E D D F W R I A E T H   C Y M R U

# NOSC 2026 Rhif 52

# BWYD

# CYNHYRCHION A REOLEIDDIR

### BWYDYDD NEWYDD

## Penderfynu ar statws awdurdodi: awdurdodi defnydd newydd a chydgrynhoi’r defnydd presennol o *olew Schizochytrium* sp. sy’n llawn DHA ac EPA fel bwyd newydd

### Nodyn esboniadol

*(nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r penderfyniad)*

Gwneir y penderfyniad hwn ar gyfer Cymru gan Weinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddir gan Erthygl 12(1) o Reoliad (EU) 2015/2283 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar fwydydd newydd (EUR 2015/2283).

Mae'n awdurdodi *olew Schizochytrium* sp. sy'n llawn asid docosahecsaenoig (DHA) ac asid eicosapentaenoig (EPA) fel bwyd newydd i'w ddefnyddio mewn dau gategori bwyd newydd: analogau cig a chynhyrchion cig ac analogau cynhyrchion pysgodfeydd. Mae telerau'r awdurdodiad a'r amodau, y gofynion a'r fanyleb y mae'r bwyd newydd wedi'i awdurdodi oddi tanynt, wedi'u nodi yn yr Atodlen.

Mae'r penderfyniad hwn hefyd yn cydgrynhoi ac yn disodli yr awdurdodiad pob defnydd awdurdodedig presennol o'r bwyd newydd hwn; gan ddisodli'r awdurdodiad presennol a oedd, cyn y penderfyniad hwn, wedi cael effaith yn unol â rheoliad 23 (arbedion a darpariaeth drosiannol: cyffredinol) o Reoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Cynhyrchion Rheoledig) (Diwygio, Dirymu, Darpariaeth Ganlyniadol a Throsiannol) 2025. Nid oes unrhyw newidiadau i gwmpas y defnyddiau awdurdodedig presennol, ond mae'r geiriad yn cael ei ddiweddaru a'i egluro, gan gynnwys:

- bod y categori bwyd “foods intended to meet the expenditure of intense muscular effort, especially for sportsmen” yn cael ei ddiweddaru i gyfeirio at “sports people”
- o fewn y categori bwyd “dairy analogues except drinks”, mae'r lefelau uchaf o DHA ac EPA ar gyfer“soy and imitation milk products (excluding drinks)” yn cael ei ddiweddaru i gyfeirio at “analogues of other milk products (excluding drinks)”.

Mewn perthynas â’r defnyddiau newydd a awdurdodwyd, cynhaliwyd yr ymgynghoriad sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sydd yn gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau mewn materion diogelwch bwyd (EUR 2002/178).

---

# Penderfyniad

**Cymhwyso a dod i rym**

1. Mae'r penderfyniad hwn yn berthnasol i Gymru, a daw i rym ar [DYDDIAD].

**Dehongli**

2. Yn y penderfyniad hwn:

   Ystyr "Rheoliad 609/2013" yw Rheoliad (EU) Rhif 609/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar fwyd a fwriedir ar gyfer babanod a phlant ifanc, bwyd at ddibenion meddygol arbennig, a chyfanswm deiet newydd ar gyfer rheoli pwysau ac ati. (EUR 2013/609);

   Ystyr "Rheoliad 828/2014" yw Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 828/2014 ar y gofynion ar gyfer darparu gwybodaeth i ddefnyddwyr am absenoldeb neu bresenoldeb llai o glwten mewn bwyd (EUR 2014/828);

   Ystyr "Rheoliad 2015/2283" yw Rheoliad (EU) Rhif 2015/2283 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar fwyd newydd (EUR 2015/2283).

3. Mae unrhyw ymadrodd a ddefnyddiwyd yn y penderfyniad hwn ac sy’n cael eu defnyddio yn Rheoliad 2015/2283 yn rhannu’r un ystyr ag sydd ganddynt yn y Rheoliad hwnnw.

**Penderfynu ar statws awdurdodi olew *Schizochytrium* sp. sy'n llawn DHA ac EPA**

4. Mae olew *Schizochytrium* sp. sy'n llawn DHA ac EPA wedi'i awdurdodi fel bwyd newydd i'w roi ar y farchnad yng Nghymru, ac i'w ddefnyddio mewn neu ar fwyd, yn unol â'r amodau, y gofynion a'r fanyleb a nodir yn yr Atodlen.

5. Mae'r penderfyniad hwn yn cydgrynhoi ac yn disodli'r awdurdodiad presennol ar gyfer olew *Schizochytrium* sp. sy'n llawn DHA ac EPA



5 Mawrth 2026

# ATODLEN

| Bwyd newydd awdurdodedig | Yr amodau y gellir defnyddio'r bwyd newydd | | Gofynion labelu penodol ychwanegol |
|---|---|---|---|
| | *Categori bwyd penodedig* | *Lefelau uchaf DHA ac EPA gyda'i gilydd:* | |
| Olew *Schizochytrium* sp. sy'n llawn DHA ac EPA | Atchwanegiadau bwyd fel y'u diffinnir yn Rheoliadau Ychwanegion Bwyd (Cymru) 2003, ar gyfer personau 18 oed neu'n hŷn, ac eithrio menywod beichiog a menywod sy'n llaetha | 3000 mg/dydd | Dynodiad y bwyd newydd ar label y bwyd sy'n ei gynnwys yw: 'Olew sy'n llawn DHA ac EPA o'r microalgâu *Schizochytrium* sp.' |
| | Atchwanegiadau bwyd fel y'u diffinnir yn Rheoliadau Ychwanegion Bwyd (Cymru) 2003, ar gyfer menywod beichiog a menywod sy'n llaetha 18 oed neu'n hŷn | 450 mg/dydd | |
| | Bwyd at ddibenion meddygol arbennig fel y'i diffinnir yn Rheoliad 609/2013 | Yn unol â gofynion maethol penodol y personau y bwriedir i'r cynhyrchion ar eu cyfer | |
| | Cyfanswm deiet newydd ar gyfer rheoli pwysau fel y'i diffinnir yn Rheoliad 609/2013 ac amnewidiadau prydau bwyd ar gyfer rheoli pwysau | 250 mg/pryd bwyd | |
| | Diodydd seiliedig ar laeth a chynhyrchion tebyg a fwriedir ar gyfer | 200 mg/100g | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | plant ifanc (unigolion rhwng 1 flwyddyn (12 mis) hyd at 3 oed (36 mis)) | | |
| | Bwyd wedi'i brosesu seiliedig ar rawnfwyd a bwyd babanod ar gyfer babanod a phlant ifanc fel y'i diffinnir yn Rheoliad 609/2013 | 200 mg/100g | |
| | Bwydydd a fwriedir ar gyfer gwaith cyhyrol dwys, yn enwedig ar gyfer pobl sy’n cymryd rhan mewn chwaraeon | 200 mg/100g | |
| | Bwydydd sy'n cynnwys datganiadau ar absenoldeb neu bresenoldeb llai o glwten yn unol â gofynion Rheoliad 828/2014 | 200 mg/100g | |
| | Cynhyrchion pobi (bara, rholiau a bisgedi melys) | 200 mg/100g | |
| | Grawnfwydydd brecwast | 500 mg/100g | |
| | Brasterau coginio | 360 mg/100g | |
| | Analogau cynhyrchion llaeth ac eithrio diodydd | 600 mg/100g ar gyfer analogau caws;<br>200 mg/100g ar gyfer analogau cynhyrchion llaeth eraill (ac eithrio diodydd) | |
| | Cynhyrchion llaeth ac eithrio diodydd seiliedig ar laeth | 600 mg/100g ar gyfer caws;<br>200 mg/100g ar gyfer cynhyrchion llaeth eraill (gan | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | gynnwys llaeth, fromage frais a chynhyrchion iogwrt; ac eithrio diodydd) | |
| | Diodydd di-alcohol (gan gynnwys analog cynhyrchion llaeth a diodydd seiliedig ar laeth) | 80 mg/100g | |
| | Bariau grawnfwyd/maeth | 500 mg/100g | |
| | Dresins a brasterau taenadwy | 600 mg/100g | |
| | Analogau cig a chynnyrch cig | 300 mg/100g | |
| | Analogau cynhyrchion pysgodfeydd | 300 mg/100g | |

**Manyleb**

- Gwerth asid ≤ 0.5 mg KOH/g
- Gwerth perocsid ≤ 5.0 mEq/kg o olew
- Sefydlogrwydd o ran ocsideiddio: Dylai pob cynnyrch bwyd sy'n cynnwys *olew Schizochytrium sp. sy'n llawn DHA ac EPA* ddangos sefydlogrwydd o ran ocsideiddio trwy fethodoleg prawf cenedlaethol/rhyngwladol briodol a chydnabyddedig (e.e. AOAC)
- Lleithder ac Anweddol ≤ 0.05%
- Methu eu troi i sebon trwy seboneiddio ≤ 4.5%
- Asidau traws-frasterog ≤ 1%
- Cynnwys DHA ≥ 22.5%

- Cynnwys EPA≥ 10%